# ADRODDIADAU ARHOLWYR TAG

## TAG (NEWYDD)
## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT
### UG/Uwch

## HAF 2022

© WJEC CBAC Ltd.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau’r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi’r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae’r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.


| **Uned** | **Tudalen** |
|---|---|
| Uned 1 | 1 |
| Uned 2 | 4 |
| Uned 3 | 7 |
| Uned 4 | 10 |
| Uned 5 | 14 |
| Uned 6 | 17 |


© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

### Haf 2022

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol i ganolfannau a'u hymgeiswyr; felly, roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cwblhau'r papur arholiad ac wedi ateb pob un o'r wyth cwestiwn o fewn yr amser a bennwyd. Roedd y papur arholiad cyntaf hwn ar gyfer y cymhwyster TAG newydd yn asesu ymgeiswyr yn effeithiol ar draws pob rhan o'r fanyleb.

Roedd canolfannau wedi paratoi eu hymgeiswyr yn dda ar gyfer yr arholiad cyntaf hwn, gan sicrhau eu bod yn ymdrin â'r rhannau priodol yn y fanyleb. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r sector galwedigaethol hwn a gwnaethant ddefnydd rheolaidd o derminoleg sector-benodol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd hwn yn gwestiwn cyntaf AA1 hygyrch ar y papur arholiad. Enillodd rhai ymgeiswyr farciau Band 4 drwy ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion y Ddeddf hon gyda gafael hyderus ar gysyniadau allweddol fel rôl cyrff cyhoeddus a nodi'r saith nod llesiant yn benodol. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o ymgeiswyr a oedd yn ymwybodol o rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd ymatebion Band 1 yn tueddu i fod yn fwy generig neu'n anghyflawn, heb gynnwys digon o fanylion neu enghreifftiau penodol.

**Cw.2** (a) Darparodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddiffiniad cywir o iechyd cyfannol. Roedd ymatebion Band 3 yn dangos gwybodaeth fanwl am y ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cyfannol, gan gynnwys rhai corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol.

(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn ymwybodol bod y model hwn yn ystyried y rhyngweithio rhwng ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol. Roedd ymatebion Band 3 yn mynd i'r afael â'r ferf orchmynnol drwy ddarparu trafodaeth fanwl ar brif nodweddion y model hwn mewn perthynas ag iechyd, llesiant ac anabledd. Roedd ymatebion Band 1 fel arfer yn fyr iawn a phrin roeddent yn darparu gwybodaeth am y model.

**Cw.3** Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ateb y cwestiwn – gwnaethant amlinellu pwysigrwydd addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol, ond nid o reidrwydd ar gyfer 'mesurau ataliol' fel rhaglenni brechu a sgrinio ac felly cawsant eu hasesu ar Fand 1. Darparodd yr ymgeiswyr a enillodd Fand 4 ystyriaeth hyderus a manwl o ddau fesur ataliol o leiaf. Roeddent wedi cyflwyno barn wybodus yn seiliedig ar enghreifftiau yn dangos sut gall addysg a chefnogaeth deuluol/cymunedol wella effeithiolrwydd y mesurau.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.4** Darparodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr rywfaint o fanylion cywir am y fenter hon, er enghraifft, drwy ddarparu cyngor cyffredinol ar iechyd a ffordd o fyw. Ar Fand 4, cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at astudiaeth achos Joe ac fe wnaethant ddarparu esboniad ardderchog o sut gall y fenter hon gyfrannu at iechyd, llesiant a gwydnwch pobl hŷn. Fodd bynnag, ni wnaeth nifer o ymgeiswyr gyfeirio at wydnwch ac nid oeddent yn gallu ennill marciau uwch na Band 2.

**Cw.5** Enillodd nifer mawr o ymgeiswyr farciau llawn yn y cwestiwn hwn. Roeddent yn ymwybodol o'r dulliau a nodwyd yn y fanyleb ac fe wnaethant ddarparu rhesymau priodol dros bob un o'r tri dull a nodwyd ganddynt.

Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn anghywir at addysgwyr neu eiriolwyr; pobl yw'r rhain, nid y dulliau fel y nodwyd yn y fanyleb. Hefyd, fe wnaeth rhai ymgeiswyr grybwyll 'digwyddiadau hyrwyddo' a oedd yn gamgymeriad gan fod y dull hwn wedi'i gynnwys ym môn y cwestiwn ac roedd y cwestiwn yn gofyn am ddulliau *eraill*.

**Cw.6** (a) Cyfeiriodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr at ddata iechyd meddwl ac yn aml roeddent yn sôn am iselder, gorbryder ac anhwylderau ymddygiad. Roedd ymgeiswyr a oedd wedi ennill Band 4 yn aml yn darparu data penodol, gan amlinellu tueddiadau neu batrymau a ffactorau dylanwadol posibl fel anghydfod teuluol, camddefnyddio sylweddau a thlodi.

Dim ond ymatebion byr iawn a sylfaenol a ddarparwyd gan rai ymgeiswyr ar Fand 1.

(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan weithwyr addysg ac fe wnaethant ddarparu rhywfaint o enghreifftiau da o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn eu hysgol/coleg eu hunain. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn yn canolbwyntio ar fanteision *a* chyfyngiadau, felly cyfyngwyd rhai ymgeiswyr i Fand 2 os rhoddwyd sylw i'r manteision *neu'r* cyfyngiadau yn unig. Roedd ymatebion Band 4 yn mynd i'r afael â'r ferf orchmynnol 'aseswch' ac yn cyflwyno barn glir a manwl am amrywiaeth o fanteision a chyfyngiadau y rolau y mae gweithwyr addysg yn eu cyflawni o ran hybu iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Cw.7** Gwnaeth ychydig o ymgeiswyr gamgymeriad drwy gyfeirio at golestrol uchel a oedd wedi'i roi yn barod ym môn y cwestiwn.

Dewisodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ffactorau risg addasadwy priodol fel ysmygu, gordewdra, rhyw anniogel a chamddefnyddio sylweddau. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr at ffactorau risg clefyd etifeddol amlffactoraidd fel pwysedd gwaed uchel, diabetes math 2 a chlefyd y galon. Dim ond Band 2 y gallai'r ymgeiswyr nad oeddent wedi esbonio'r effeithiau ar wydnwch ei ennill. Enillodd nifer o ymgeiswyr Fand 4 drwy ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddau ffactor priodol a gafael hyderus ar amrywiaeth o ffyrdd y gallent effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch unigolyn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cw.8** Roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar y ddau amcan asesu, AA1 ac AA3. Yn gyffredinol, roedd cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys sillafu, atalnodi a gramadeg, yn cael ei asesu o fewn AA3 hefyd.

Cyflwynodd rhai ymgeiswyr ymatebion byr a chyfyngedig iawn, neu ddim ymateb o gwbl. Lluniodd ymgeiswyr ymatebion gwell ar gyfer rhan AA1 gyntaf y cwestiwn ac fe wnaethant ddisgrifio sut gall amodau byw a gweithio effeithio ar iechyd a llesiant i ennill Band 3. Fodd bynnag, ni aeth llawer o ymgeiswyr i'r afael ag ail ran y cwestiwn ar gyfer AA3 mewn perthynas ag anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Os nad oedd ymgeiswyr yn cyfeirio at amodau byw *ac* amodau gweithio, dim ond hyd at Fand 2 y gallent ei ennill. Roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn ennill Band 4 wedi darparu ymatebion clir wedi'u llunio'n dda, gan roi barn wybodus yn seiliedig ar dystiolaeth enghreifftiol, ac yn cyfiawnhau sut gall amodau byw a gweithio gyfrannu at anghydraddoldebau mewn gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

1. Mae angen i ymgeiswyr ddarllen a chanolbwyntio'n ofalus ar y cwestiwn i nodi'r canlynol:

   - y marciau a ddyrannwyd (i helpu i reoli amser)
   - geiriau allweddol/yr hyn y mae'r cynnwys yn canolbwyntio arno
   - y ferf orchmynnol i fynd i'r afael â hi

   Gellid annog ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol a'r berfau gorchmynnol ym mhob cwestiwn i osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd.

2. Byddai ymgeiswyr yn elwa ar ymarfer cwestiynau arholiad yn rheolaidd fel bod yr arholiad terfynol o bosibl yn achosi llai o straen ac nid yn brofiad annisgwyl ac annymunol. Gellid cynnwys cwestiynau arholiad wrth addysgu'r cwricwlwm a chyflwyno'r fanyleb. Gellid annog ymgeiswyr i hunanfarcio ymatebion i gwestiynau arholiad a marcio ymatebion cyfoedion fel ffordd o ymgyfarwyddo â'r cynlluniau marcio ac fel adnodd dysgu effeithiol. Mae cynnal ffug-arholiadau hefyd yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr ddysgu a gwella eu technegau arholiad, gan eu galluogi, er enghraifft, i wella sgiliau rheoli amser ac osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd, fel y nodwyd ym mhwynt 1 uchod.

3. Dylai sgiliau rheoli amser sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu cwblhau'r papur arholiad o fewn y 2 awr a bennwyd. 80 marc yw cyfanswm marciau posibl y papur arholiad hwn sy'n cyfateb i tua 1.5 munud i bob marc a ddyrannwyd.

4. Dylai canolfannau sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o holl gynnwys Uned 1 y fanyleb a fydd yn cael ei asesu mewn arholiadau yn y dyfodol, a bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda ohono. Dylai fod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o eirfa a therminoleg sector-benodol fel y nodwyd yn y fanyleb.

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddeunyddiau a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd ar Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, CBAC a'r wefan ddiogel i gefnogi athrawon ac ymgeiswyr, a dylent gyfeirio atynt. Mae'r adnoddau'n cynnwys cyfleoedd hyfforddi DPP, deunyddiau asesu enghreifftiol (DAE), cyn-bapurau a chynlluniau marcio ac adroddiadau arholwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

### Haf 2022

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 2: CEFNOGI IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH YNG NGHYMRU

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae angen i'r ymgeiswyr a'r athro lenwi a llofnodi ffurflenni datganiad, ac mae hyn yn berthnasol hefyd i ffurflenni sy'n cael eu llwytho i fyny i system mewnbynnu marciau asesiad mewnol (IAMIS) CBAC. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu.

Dylid labelu'r gwaith â rhif y ganolfan a'r ymgeisydd ar y daflen farciau blaen/datganiad yr ymgeisydd ac mewn pennyn neu droedyn ar y gwaith. Roedd anodiadau ar waith a chynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a roddwyd.

Gwelwyd asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn ennill bandiau marciau uwch, bod rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanylach sy'n bodloni'r amcanion asesu a'r geiriau gorchymyn.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Roedd adrannau'r dasg yn eu trefn ac wedi'u cwblhau yn fformat priodol adroddiad. Dewisodd ymgeiswyr rolau swyddi priodol o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y rolau o fewn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant cyn penderfynu ar y ddwy rôl swydd. Nid yw rolau swyddi o fewn gwasanaethau cyhoeddus yn addas.

**Adran (a) – Cynnwys 2.2.3 (c)**

Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i gymhwyso'n briodol ond mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atyn nhw.

I ennill band marciau uwch, mae angen cysylltu cynnwys 2.2.3 (c) yn fwy penodol â'r amcanion asesu; yn arbennig, cysylltu cyfleoedd a llwybrau cyflogaeth â chyfleoedd i gael dyrchafiad neu symud ymlaen, pob maes arbenigedd a/neu leoliadau daearyddol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran (b) – Cynnwys 2.2.2 (a), (ch), 2.2.4 (a)**

Dylai canolfannau gofio nad oes angen i adran (b) fod yn gysylltiedig â rolau swyddi.

I ennill band marciau uwch, mae angen cysylltu'r cynnwys yn fwy penodol â'r amcanion asesu; yn arbennig, y drafodaeth am effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau am wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel.

**Adran (c) (i) – Cynnwys AA2, 2.2.2 (c)**

I ennill band marciau uwch, mae angen cysylltu'r cynnwys yn fwy penodol â'r amcanion asesu; yn arbennig, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r technegau yn cael eu cymhwyso at arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

I ennill marciau uwch, mae angen i'r cynnwys gael ei gymhwyso at yr ymarferwr a ddewiswyd, gan roi mwy o esboniad o ran sut gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Adran (c) (ii) – Cynnwys AA2, 2.2.2 (b), 2.2.2 (d)**

I ennill band marciau uwch, mae angen cysylltu'r cynnwys yn fwy penodol â'r amcanion asesu; yn arbennig, mae angen cymhwyso egwyddorion gofal ymhellach at yr ymarferwr a ddewiswyd.

Cyn dyfarnu marciau, dylai canolfannau sicrhau yr ymdrinnir â'r cynnwys yn fanwl a bod ymgeiswyr yn ymdrin â gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth i'r un lefel ag egwyddorion gofal. Mae angen esbonio egwyddorion gofal mewn perthynas â sut maen nhw'n helpu i sicrhau gofal person-/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. Dylai ymgeiswyr esbonio sut mae gwaith amlddisgyblaethol a gwaith partneriaeth yn cefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol.

**Tasg 2**

Cwblhawyd tasg 2 yn fformat priodol cyflwyniad, blog neu ffeithlun. Lluniodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd rhai wedi cynnwys nodiadau PowerPoint hefyd. Dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai'r gwaith ddilyn strwythur yr asesiad (adrannau (a), (b), (c) ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, a fyddai yna'n cynhyrchu gwaith o natur gydlynol.

**Adran (a) – Cynnwys AA2, 2.2.1 (c)**

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin ag anghenion (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol ac Ieithyddol) yr unigolyn. I ennill band marciau uwch, mae angen ymdriniaeth fanylach â sut gellid asesu'r anghenion hynny i nodi a chyflawni canlyniadau personol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Adran (b) – Cynnwys AA1, AA2, 2.2.1 (a), 2.2.1 (b)**

Ymdriniwyd â'r meini prawf asesu yn dda, gan amlinellu canlyniadau personol a chryfderau'r unigolion, a'r strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol. I ennill band marciau uwch, mae angen i'r cynnwys fod yn fanylach, gan amlinellu sut gall ymarferwyr gefnogi'r unigolyn i nodi canlyniadau personol, nodi cryfderau i gynorthwyo a chyflawni canlyniadau personol a nodi a meithrin eu gwydnwch.

**Adran (c) – Cynnwys AA3, 2.2.1 (ch)**

Ymdriniwyd â'r cynnwys hwn yn dda ac roedd wedi'i gysylltu yn fanwl â'r unigolion. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn archwilio amrywiaeth eang o ffyrdd y gall yr unigolyn a ddewiswyd gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol.

**Adran (ch) – Cynnwys AA1, AA3, 2.2.3 (a), 2.2.3 (ch)**

Dylid annog ymgeiswyr i gysylltu'r cynnwys â'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt. I ennill band marciau uwch, mae angen i'r cynnwys fod yn fanylach; yn arbennig, ystyried sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â'r rheini mewn mannau eraill yn y DU.

**Adran (d) – Cynnwys AA2, 2.2.3 (b)**

I ennill band marciau uwch, mae angen ymdrin yn llawn â'r cynnwys. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am nod pedwarplyg Cymru iachach.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn dyfarnu marciau yn y bandiau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn y fanyleb.

Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i dogfennu'n dda ac wedi'i chyfeirio ar ôl pob adran. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirio fel y nodwyd yn y fanyleb.

Anogir y defnydd o benawdau (Adran (a), Adran (b), Adran (c) ac ati) i gefnogi ymgeiswyr wrth gyflwyno'u gwaith.

Mae adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r uned i'w cael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2022**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

## UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH DATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd safon gyffredinol ymatebion ymgeiswyr i'r papur yn dda, gydag ychydig o ymatebion nad oeddent yn ennill unrhyw farciau ac ychydig o gwestiynau na roddwyd cynnig arnynt. Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r hyn roedd y cwestiynau'n ei ofyn, gydag ychydig o enghreifftiau o ymgeiswyr yn rhoi ymatebion lle nad oeddent wedi deall y cwestiwn.

Dyma flwyddyn gyntaf dyfarnu'r cymhwyster hwn felly nid oes cyn-bapurau i'w cymharu. Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar ateb pob un o'r cwestiynau ac enillwyd yr amrediad llawn o'r marciau ar gyfer pob cwestiwn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr amser a ganiatawyd ar gyfer y papur wedi arwain at ymgeisydd yn tanberfformio ac roedd yr ymatebion yn dangos bod gan ymgeiswyr y cyfle i ddangos yn llawn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r fanyleb ar gyfer yr uned hon drwy'r papur. Rhoddodd llawer o ymgeiswyr ymatebion ardderchog a oedd yn dangos eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad – roedd yr ymatebion hyn yn llawn gwybodaeth ac wedi'u strwythuro'n dda, gan ddefnyddio terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant briodol o'r fanyleb. Roedd angen i eraill ddatblygu eu gwybodaeth am dermau a chysyniadau allweddol, er enghraifft: gwaith chwarae; ymlyniad; strategaethau yn hybu ymddygiad cadarnhaol; pwrpas chwarae.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr a wnaeth yn dda yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at y cwestiynau a osodwyd mewn cyd-destun gofal plant o fewn yr astudiaeth achos ar gyfer adran A;
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o sut i gymhwyso damcaniaethau datblygiad plentyn at gyd-destun gofal plant;
- dangos gwybodaeth dda am y fanyleb gan gynnwys pwrpas chwarae, cyfnodau chwarae gwahanol a mathau gwahanol o chwarae, a strategaethau i gefnogi ymddygiad cadarnhaol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal yn y papur hwn yn gwneud y pethau canlynol:

- dangos diffyg manylder yn eu hymatebion, er enghraifft, yn rhoi ymatebion cyffredinol am ddatblygiad plentyn mewn perthynas â PILES heb ateb y cwestiwn;
- yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'r hyn roeddent wedi'i ddysgu at gyd-destunau gofal plant neu flynyddoedd cynnar;
- llunio ymatebion â diffyg manylder, ac roeddent yn aml yn ddi-drefn ac yn amherthnasol i'r hyn a ofynnwyd, weithiau dim ond yn ailadrodd gwybodaeth a roddwyd yn yr astudiaeth achos yn hytrach nag ateb y cwestiwn yn adran A a chwestiwn 5;
- dangos diffyg gwybodaeth am gynnwys y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** (a) Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn, ac roeddent yn gallu disgrifio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad yn gywir o'r astudiaeth achos, gyda llawer o ymgeiswyr yn ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn. Nododd ymgeiswyr llai llwyddiannus y ffactor ond ni wnaethant ddisgrifio sut roedd hwn yn dylanwadu ar ymddygiad Elen – gwnaethant ailadrodd y wybodaeth a roddwyd yn yr astudiaeth achos, er enghraifft, 'Y ffactor yw ysgariad. Mae hyn oherwydd bod rhieni Elen wedi gwahanu pan oedd hi'n 4 oed'.

(b) Roedd gan fwyafrif yr ymgeiswyr wybodaeth dda am ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura ac roeddent yn gallu ei chymhwyso'n llwyddiannus at yr astudiaeth achos. Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o ddylanwad modelau rôl a sut mae plant yn dynwared ymddygiad pobl eraill. Fe wnaeth rhai estyn eu hymatebion, gan gyfeirio at arsylwi gwobrwyo neu ddiffyg cosb yn dylanwadu ar ymddygiad.

(c) Dangosodd llawer o ymgeiswyr wybodaeth dda am amrywiaeth o strategaethau sy'n cael eu defnyddio i hybu ymddygiad cadarnhaol. Dim ond un neu ddwy o strategaethau y gwnaeth ymgeiswyr llai llwyddiannus gyfeirio atynt ac roeddent yn ansicr ynghylch sut roedd y rhain yn hybu ymddygiad cadarnhaol.

**Cw.2** (a) Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau Bowlby. Rhoddodd rhai ymatebion manwl ardderchog yn dangos dealltwriaeth fanwl ac eang o sut roedd y ddamcaniaeth hon yn gysylltiedig â'r astudiaeth achos.

(b) Ymatebodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn, gan ddangos dealltwriaeth dda o bwrpas chwarae, a gallent gysylltu sut byddai chwarae llawn dychymyg yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol ac ieithyddol/iaith. Fe wnaeth ymgeiswyr llai llwyddiannus gynnwys mathau eraill o chwarae yn eu hymatebion neu sôn am fanteision corfforol yn hytrach na rhai cymdeithasol ac ieithyddol/iaith. Rhoddodd ychydig o ymgeiswyr ymatebion sylfaenol iawn am bwrpas chwarae, er enghraifft, 'Helpu plant i ddatblygu eu PILES'.

**Cw.3** (a) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan ymgeiswyr, gydag ymatebion da neu da iawn yn bennaf yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ddamcaniaeth deallusrwydd emosiynol. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn rhoi ymatebion a oedd yn ymdrin ag ehangder manteision cymdeithasol deallusrwydd emosiynol.

(b) Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, ar y cyfan, yn ddymunol iawn a dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o sut byddai anableddau dysgu yn gallu effeithio ar ddatblygiad. Roedd yr ymatebion yn dangos bod canolfannau wedi addysgu a dysgu yn ardderchog ar gyfer y maes hwn o'r fanyleb. Perfformiodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn arbennig o dda yn y cwestiwn hwn. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr na wnaethant berfformio cystal at anableddau corfforol yn hytrach nag anableddau dysgu yn eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.

(c) Dangosodd ymatebion fod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o chwarae creadigol. Roedd yr ymgeiswyr hynny a enillodd fandiau uwch yn gallu cysylltu chwarae creadigol â datblygiad gwybyddol yn effeithiol. Cyfeiriodd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn llai llwyddiannus yn bennaf at ddatblygiad corfforol neu nid oeddent yn gallu cysylltu'r math o chwarae â datblygiad gan restru agweddau ar chwarae creadigol yn unig.

**Cw.4** (a) Roedd safon yr ymatebion gan fwyafrif yr ymgeiswyr yn dda, ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a sut mae chwarae amgylcheddol yn fuddiol i ddatblygiad. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn cyfeirio at amrywiaeth o fanteision ar gyfer datblygiad plant ac yn rhoi ymatebion manwl ac eang.

(b) Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddamcaniaethau Piaget a oedd yn arwydd o addysgu a dysgu o ansawdd uchel gan ganolfannau yn y maes hwn. Yn bennaf, roedd ymgeiswyr yn gallu dangos dealltwriaeth o sut mae damcaniaeth Piaget yn cefnogi'r gwaith o asesu datblygiad plant. Nododd ymgeiswyr llai llwyddiannus brif bwyntiau'r ddamcaniaeth ond ni wnaethant gyfeirio at asesu yn yr ymatebion.

(c) Rhoddodd ymgeiswyr ymatebion da yn bennaf am waith chwarae. Drysodd ymgeiswyr llai llwyddiannus rhwng rôl y gweithiwr chwarae a rôl gweithiwr/person allweddol neu ymarferwr gofal plant.

**Cw.5** Dangosodd mwyafrif yr ymgeiswyr wybodaeth fanwl am rôl y gweithiwr allweddol a chysylltu honno'n dda â'r astudiaeth achos. Ymdriniwyd â'r strategaethau a ddefnyddiwyd yn fanwl ym mwyafrif yr ymatebion. Roedd y ramadeg, yr atalnodi a'r derminoleg o safon ddymunol gan lawer o ymgeiswyr.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

1. Rhoddodd mwyafrif yr ymgeiswyr ymatebion o safon dda, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y fanyleb sy'n dangos bod y cymhwyster newydd hwn wedi'i addysgu'n effeithiol mewn canolfannau.

2. Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r astudiaeth achos a'r gallu i gysylltu datblygiad ac ymddygiad y plant yn yr astudiaeth achos yn effeithiol â'r hyn roeddent wedi'i ddysgu o gynnwys yr uned, sy'n dangos bod strategaethau addysgu a dysgu effeithiol wedi'u defnyddio gan ganolfannau.

3. Nid oedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn aml wedi ateb y cwestiwn yn llawn, gydag ymatebion yn ymdrin yn rhannol yn unig â'r cynnwys a oedd yn cael ei asesu. Er enghraifft, nodi cyfnodau a phwyntiau allweddol damcaniaeth Piaget ond heb ei chysylltu ag arferion asesu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yng nghwestiwn 4 (b).

4. Yn gyffredinol, gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o chwarae ac agweddau ar y fanyleb yn ymwneud â chwarae oedd yr adran wannaf o'r fanyleb a aseswyd. Yr adran gryfaf oedd damcaniaethau datblygiad, gydag ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth arbennig o gryf am Piaget, Bowlby a Bandura, ond nid oedd y gwaith o gymhwyso at ddatblygiad ac ymddygiad plant cystal â'r wybodaeth am y damcaniaethau eu hunain.

**Click here to enter text.**

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

### Haf 2022

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 4: CEFNOGI DATBLYGIAD, IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH PLANT A PHOBL IFANC

**Sylwadau Cyffredinol**

Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig llawn ar bob cwestiwn. Er nad oedd gwaith rhai ymgeiswyr wedi'i gyflwyno ar ffurf cyflwyniad ac adroddiad, roedd y rhan fwyaf yn cysylltu â'r sector gofal plant yng Nghymru, ac roedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi rhywfaint o enghreifftiau cyfoes da yn cysylltu'n uniongyrchol â Chymru.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

(a) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi diffiniad defnyddiol o ofal plentyn-ganolog a phwysigrwydd gofal plentyn-ganolog o ran bodloni anghenion plant a phobl ifanc. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi rhoi unrhyw effeithiau posibl pe na fyddai'r anghenion hyn yn cael eu bodloni. Roedd rhai yn gallu dangos dealltwriaeth hyderus o sut gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog er mwyn bodloni anghenion cyfannol plant a phobl ifanc o fewn cyfnodau datblygiad allweddol; ond, nid oedd rhai yn ei gwneud yn glir bob amser pa anghenion oedd yn cael eu hesbonio. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai ymgeiswyr yn rhannu eu hatebion yn anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol, a chymdeithasol ac yn gwneud yn glir y ffyrdd y gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog i fodloni'r anghenion penodol hyn. Er mwyn i ymgeiswyr gyrraedd Band 3, rhaid iddynt ddangos dealltwriaeth hyderus o sut gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog i fodloni'r anghenion cyfannol.

(b) (i) Nid oedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn oherwydd nid aethant i'r afael â nodweddion allweddol y cwestiwn. Roedd gofyn iddynt ddisgrifio'r mathau gwahanol o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd y gall plentyn neu berson ifanc eu profi ond, yn hytrach, rhoesant fanteision ac anfanteision y trawsnewidiadau hyn, ac nid hynny oedd yn cael ei asesu.

Nid oes rhaid i'r gwaith fod yn fanwl yma, dim ond rhoi cyfrif byr o beth yw'r trawsnewidiadau, y profiadau bywyd a'r newidiadau mewn bywyd hyn, a pham byddent yn gallu digwydd i blentyn neu berson ifanc. Mae'n ymwneud â pharatoi ar gyfer rhywun sy'n bwriadu dilyn gyrfa yn y sector gofal plant yn y dyfodol.

(ii) *Yn unol ag addasiadau CBAC, ni chwblhawyd Tasg 1 (b) (ii).*

© WJEC CBAC Ltd.

(c) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu esbonio'r mathau o asesu a ddefnyddiwyd a'u pwrpas yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt; ond fe wnaeth rhai ymgeiswyr restru asesiadau heb esbonio pam byddai'r asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc yn y lleoliad. Rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y lleoliad o fewn y gwaith. Ni aeth rhai ymgeiswyr i'r afael â'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol. Hefyd, dylid gwneud yr egwyddorion asesu'n glir.

Dylai ymgeiswyr rannu'r cwestiwn yn ddwy ran allweddol:

1. canolbwyntio ar y lleoliad penodol – y mathau a ddefnyddiwyd yn y lleoliad hwnnw a'u pwrpas – sicrhau eu bod yn ystyried sut y gallai fodloni anghenion penodol a darparu cefnogaeth amserol a pharhaus; a

2. canolbwyntio ar ofal cymdeithasol yn gyffredinol, fel esbonio'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol ac ystyried yr egwyddorion asesu.

Mae'n bwysig nad dim ond rhestru eu pwyntiau y mae ymgeiswyr – dylid bod rhyw fath o esboniad.

(ch) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhestru'r rhwystrau y gallai plant a phobl ifanc eu profi o ran cael mynediad at ofal a chymorth. Fodd bynnag, y gair allweddol oedd 'amlinellu', gan gysylltu gofal a chymorth. Defnyddiodd yr ymgeiswyr a oedd wedi datblygu eu hatebion enghreifftiau penodol o'u lleoliadau a gwnaethant ystyried amrywiaeth o rwystrau. I ddatblygu eu pwyntiau, dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r fformiwla EEE: **enwi**'r pwynt = y rhwystr, **esbonio** = amlinellu'r rhwystr (rhoi disgrifiad byr o'r rhwystr); ac **enghraifft** = rhoi enghreifftiau o'r lleoliad a sut byddai'n gallu neu sut mae wedi cael effaith ar eu gofal a chymorth.

(d) (i) *Yn unol ag addasiadau CBAC, ni chwblhawyd Tasg 1 (d) (i).*

(ii) Ni wnaeth llawer o ymgeiswyr ennill marciau llawn ar gyfer y cwestiwn hwn gan eu bod wedi methu mynd i'r afael â'r geiriau gorchymyn allweddol nac wedi deall/ymateb i'r cwestiwn yng nghyd-destun y lleoliad a ddewiswyd. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ystyried, pan fydd unigolion ag anghenion cymhleth yn mynd i mewn i'r lleoliad hwnnw, sut byddai'r lleoliad hwn yn deall yr anghenion hynny ac yna sut byddai'n ymateb iddynt? Felly, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng deall ac ymateb i. Dylai ymgeiswyr hefyd ehangu eu hesboniad drwy ei gwneud yn glir sut mae deall ac ymateb i'r anghenion cymhleth hyn o fudd i'r plant neu bobl ifanc wrth gyflawni eu canlyniadau personol.

**Tasg 2**

(a) Fe wnaeth mwyafrif yr ymgeiswyr archwilio'r polisïau cymdeithasol gwahanol a chynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach ac ati hefyd, ond ni wnaeth rhai ddweud sut roeddent yn effeithio ar ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Byddai mwy o gysylltau uniongyrchol â sut mae'r sector gofal plant yn cael ei effeithio wedi datblygu cynnwys cyflwyniadau'r ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Ltd.

(b) Yn gyffredinol, esboniodd ymgeiswyr y newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru ond nid sut roeddent yn effeithio ar rolau ymarferwyr yn y sector. Ni wnaeth rhai esbonio'r newidiadau, er enghraifft, fe wnaeth rhai ymgeiswyr esbonio rôl y ddarpariaeth Dechrau'n Deg heb esbonio sut mae hwn wedi cynyddu yng Nghymru. I ymgeiswyr gyflawni 'ardderchog', mae angen iddyn nhw esbonio'n glir y pedwar newid allweddol yn y ddarpariaeth gofal plant.

(c) (i) Nid oedd ymgeiswyr bob amser yn rhoi diffiniad craidd o ddiogelu ac, yn arbennig, pwysigrwydd pam mae diogelu yn angenrheidiol mewn perthynas ag amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd rhai atebion yn rhy gyffredinol a gellid eu cymhwyso at unrhyw un o'r camau bywyd, gan arwain at ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth yn unig o pam mae diogelu yn angenrheidiol. Roedd rhai wedi camddeall ystyr y term 'diogelu' fel rhywbeth ar ôl i blentyn neu berson ifanc gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi datblygu eu hatebion yn gallu ystyried pam mae osgoi mathau penodol o gamdriniaeth, er enghraifft, corfforol, emosiynol/seicolegol, rhywiol, ariannol ac esgeulustod, yn angenrheidiol o ran amddiffyn plant.

(ii) Rhoddodd llawer o ymgeiswyr gynnig ar ddisgrifio cyfrifoldebau unigolion ond nid oeddent yn ystyried cyfrifoldebau sefydliadau bob amser. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ddisgrifio sut roedd y cyfrifoldebau hyn yn dylanwadu ar ymarfer. Byddai'n ddefnyddiol i ymgeiswyr rannu eu hateb yn ddwy adran: (1) cyfrifoldebau unigolion; a (2) cyfrifoldebau sefydliadau.

(iii) Trafododd mwyafrif yr ymgeiswyr nodau a rolau y ddeddfwriaeth benodol, Deddf Plant 2004, ond nid oedd rhai yn trafod sut mae'n gwella gofal a chymorth plant a phobl ifanc. Fe wnaeth ychydig o ymgeiswyr drafod darnau gwahanol o ddeddfwriaeth, ond nid oedd hyn yn cael ei asesu.

(ch) Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu ystyried natur newidiol cymdeithas; ond, nid oedd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio'n benodol at Gymru. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu rhoi ymchwil gwrthrychol o ran natur newidiol cymdeithas ond nid oeddent yn llunio barn am sut byddai hynny'n effeithio ar y sector gofal plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn defnyddio ymchwil yn yr adran hon gan y byddai hynny'n datblygu eu hatebion ac yn eu galluogi i lunio barn wybodus.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

1. Ar gyfer Tasg 1 (a), rhannwch y gwaith yn anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc, gan gynnwys yr effeithiau posibl pe na bai'r anghenion hyn yn cael eu bodloni. Rhannwch y gwaith yn bum adran wahanol, gan ddangos sut gellir cymhwyso gofal plentyn-ganolog er mwyn bodloni anghenion corfforol, deallusol/gwybyddol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol o fewn cyfnodau datblygiad allweddol. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i gyrraedd Band 3.

2. Ar gyfer Tasg 1 (c) (i), er mwyn cyrraedd Band 4, dylai ymgeiswyr rannu eu gwaith yn ddwy adran: (1) canolbwyntio ar y lleoliad penodol – y mathau a ddefnyddiwyd yn y lleoliad hwnnw a'u pwrpas – sicrhau eu bod yn ystyried sut y gallai fodloni anghenion penodol a darparu cefnogaeth amserol a pharhaus; a (2) canolbwyntio ar ofal cymdeithasol yn gyffredinol, fel esbonio'r pum elfen asesu a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol ac ystyried yr egwyddorion asesu.

© WJEC CBAC Ltd.

3. Ar gyfer Tasg 1 (d) (ii), gellid rhannu'r atebion yn deall anghenion cymhleth ac ymateb i anghenion cymhleth. Un cynllun defnyddiol posibl fyddai:

   Deall anghenion gofal cymhleth:
   Naill ai trwy gynlluniau datblygu unigol (IDP)/cynlluniau ymddygiad unigol (IBP), cynlluniau gofal/cefnogaeth, arsylwadau, cefnogaeth ychwanegol – sut byddai'r rhain o fudd i blant a phobl ifanc.

   Sut gall lleoliadau ymateb i anghenion gofal cymhleth:
   Esboniad o'r rhain – dyrannu gweithwyr allweddol, gwahaniaethu, defnyddio cymhorthion
   /addasiadau – sut byddai'r rhain o fudd i blant/pobl ifanc.

4. Ar gyfer Tasg 2 (c) (ii), gallai ymgeiswyr rannu eu hatebion yn ddwy adran: (1) cyfrifoldebau unigolion; a (2) cyfrifoldebau sefydliadau.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

### Haf 2022

### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 5: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION

**Sylwadau Cyffredinol**

Roedd yn braf gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau am eu hymatebion oherwydd eu bod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaeth seicolegol. Roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud defnydd effeithiol o'r astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw (a oedd yn ymwneud ag Adran A y papur), ynghyd â'r Wybodaeth Ymlaen Llaw, fel sail i'r hyn a adolygwyd ganddynt. Nid oedd yn ymddangos bod y gallu i reoli amser wedi effeithio ar berfformiad, a fyddai'n awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i baratoi.

Yn gyffredinol, roedd ymatebion ymgeiswyr yn dangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig priodol ar gyfer TAG. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn dda gan y rhan fwyaf ar draws y papur. Prin iawn y gwelwyd llawysgrifen annarllenadwy.

Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchymyn y cwestiwn o ddechrau eu hymatebion. Os nad ydynt yn mynd i'r afael yn drylwyr â'r gair gorchymyn, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi. Yn gyffredinol, roedd ymatebion yn mynd i'r afael â gofynion y cwestiynau, ond nid oedd rhai'n ymgysylltu i'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd rhai ymatebion i gwestiynau yn awgrymu nad oedd ymgeiswyr yn darllen y wybodaeth cyn y cwestiwn yn llawn ac felly'n gadael agweddau pwysig allan o'u hymatebion; er enghraifft, yng nghwestiwn 3 (b), lle nad oedd rhai ymatebion yn cyfeirio at anabledd dysgu fel ffactor fyddai wedi gallu cael effaith ar ymddygiad Nia; a chwestiwn 4 (ch) lle roedd rhai ymgeiswyr wedi methu cysylltu oed Josef (84) â'r ffaith ei fod yn y cyfnod datblygiad oedolaeth ddiweddarach. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi drwy edrych ar astudiaethau achos gwahanol a gwneud defnydd llawn o adnoddau i gefnogi'r uned hon.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Adran A**
Mae'r adran hon yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw.

**Cw.1** Yn gyffredinol, roedd y perfformiad ar gyfer y cwestiwn hwn yn dda, gyda'r rhan fwyaf o'r marciau a enillwyd rhwng 13 ac 20. Amrywioldeb yn ansawdd yr ymatebion yn hytrach na diffyg gwybodaeth oedd y rheswm dros golli marciau.

(a) Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ffactorau seicolegol.

(b) Roedd ymatebion yn dangos dealltwriaeth sicr yn gyffredinol o gysyniad gwydnwch, ac roedd ymgeiswyr yn gallu defnyddio hynny i ddisgrifio effeithiau cadarnhaol bod yn wydn.

© WJEC CBAC Ltd.

(c) Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth Skinner i'w gweld yn y rhan fwyaf o ymatebion. Defnyddiwyd hyn yn effeithiol i esbonio pam nad oedd Ioan wedi datblygu dibyniaeth ar alcohol.

**Cw.2** (a) Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud yn uniongyrchol ag adran 2.3 (a) y fanyleb. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn darparu dadansoddiad sylfaenol, gyda dehongliad dilys ar y cyfan o sut mae dulliau cadarnhaol a rhagweithiol yn gallu cefnogi oedolyn â dibyniaeth ar alcohol, ond roedd diffyg manylder yn rhai ymatebion am yr egwyddorion gofal person-ganolog sy'n sail i ddulliau cadarnhaol a rhagweithiol.

(b) Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3), gan ofyn i ymgeiswyr ddisgrifio a thrafod. Roedd y mwyafrif yn gallu darparu disgrifiad da o ddamcaniaeth fiolegol Eysenck, gan ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r nodweddion allweddol, a thrafodaeth dda, gyda dehongliadau dilys ar y cyfan o sut byddai'r ddamcaniaeth hon yn gallu egluro dibyniaeth Paula ar alcohol. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn ymwybodol bod geneteg ac etifeddiad yn chwarae rhan, gyda rhai yn dangos gwybodaeth fanwl hefyd drwy fanylu ar ddamcaniaeth arfaethedig Eysenck am fathau o bersonoliaeth a'u rôl mewn ymddygiad caethiwus.

**Adran B**

**Cw.3** (a) Cafwyd ymatebion da i'r cwestiwn hwn, gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu rhoi disgrifiad o ystyr Cefnogaeth Weithredol.

(b) Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da, gan ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o ffactorau fyddai wedi gallu cael effaith ar ymddygiad Nia yn ddiweddar, a rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth; ond methodd rhai ymgeiswyr â sôn am anabledd dysgu Nia.

(c) Cafwyd ymatebion cymysg gan ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn dangos ymgysylltiad syml â'r cysyniad o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol. Roedd yr ymgeiswyr hynny a enillodd y bandiau marciau uwch yn gallu rhoi archwiliadau da, gan lunio barn graff a gwybodus am sut gallai Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol alluogi unigolion i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys enghreifftiau o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol ac yn cyfeirio at sut byddent yn gallu helpu Nia i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol.

**Cw.4** (a) Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ffactorau seicolegol.

(b) Roedd ymatebion yn dangos dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddamcaniaeth wybyddol, ac roedd ymgeiswyr yn gallu ei defnyddio'n effeithiol i esbonio pam mae Josef yn meddwl yn gadarnhaol am ei fywyd. Roedd yn braf gweld bod rhai ymgeiswyr wedi cyfeirio at ddamcaniaethau damcaniaethwyr gwybyddol gwahanol (Piaget, Vygotsky, Bruner) i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr.

(c) Gwelwyd gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o therapi siarad gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr, ond dim ond rhai a oedd yn gallu disgrifio sut mae therapi siarad yn gallu cefnogi oedolion sy'n colli eu cof ac fe wnaethant ddefnyddio'r enghraifft o Josef yn mynychu grŵp hel atgofion i egluro'u hateb.

© WJEC CBAC Ltd.

(ch) Yn gyffredinol, roedd ymatebion yn nodi bod Josef yn y cyfnod datblygiad oedolaeth ddiweddarach. Lleiafrif yr ymgeiswyr a oedd yn gallu ymgysylltu â phob un o'r meysydd datblygiad allweddol (corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol) yn eu hymatebion ac yn gallu llunio barn graff a gwybodus am sut byddent yn cael effaith ar ymddygiad Josef, a oedd yn angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at 8 cyfnod datblygiad Erikson ac fe wnaethant ennill marciau am hyn.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3), gan ofyn i ymgeiswyr ddisgrifio ac asesu. Roedd sillafu, atalnodi, gramadeg a'r defnydd o derminoleg pwnc-benodol yn cael eu hasesu yn yr ymatebion hefyd.

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o fodel *Skilled Helper* Egan a disgrifio nodweddion allweddol pob cam allweddol. Roedd ymgeiswyr a gafodd farciau uwch yn rhoi disgrifiadau manylach o gam 3, Gweithredu, gan gynnwys bod cynlluniau'n cael eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd, ac addasiadau yn cael eu gwneud, yn ôl yr angen.

Roedd mwyafrif yr ymatebion wedi'u mynegi'n glir ac yn dangos dehongliad wedi'i resymu o sut mae model *Skilled Helper* Egan yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sillafu, atalnodi a gramadeg cywir. Roedd yr ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda yn bennaf. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn gywir gan fwyafrif yr ymgeiswyr. Roedd yn braf gweld rhai asesiadau ardderchog, gyda rhai ymgeiswyr yn ennill band marciau 4.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchymyn y cwestiwn o ddechrau eu hymatebion. Os nad ydynt yn mynd i'r afael yn drylwyr â'r gair gorchymyn, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi.

- Mae darllen y wybodaeth cyn y cwestiwn yn bwysig er mwyn rhoi cyd-destun i ymateb yr ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr fod yn gyfarwydd ag archwilio deunydd astudiaethau achos wrth baratoi.

- Argymhellir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i'w paratoi ar gyfer gofynion yr arholiad hwn.

- Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth fwy trylwyr o egwyddorion gofal person-ganolog a sut maent yn sail i ddulliau cadarnhaol a rhagweithiol er mwyn i ymgeiswyr allu ennill y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2022**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

## UNED 6: CEFNOGI OEDOLION I GYNNAL IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd y gwaith asesiad di-arholiad wedi'i gyflwyno'n dda, gyda chanolfannau'n dewis rhwng llwytho gwaith i fyny ac anfon copïau caled. Roedd anodiadau canolfannau ar y gwaith yn amrywio o ran manylder – mewn rhai achosion, byddai anodiadau manylach yn cynorthwyo'r broses gymedroli. Roedd y ddwy dasg yn hygyrch i'r ymgeiswyr. Cyflwynwyd Tasg 1 ar ffurf cyflwyniadau PowerPoint yn y rhan fwyaf o achosion; lle rhoddwyd nodiadau ychwanegol i esbonio pob maen prawf asesu, roedd canolfannau'n gallu cyfiawnhau eu marciau yn glir. Gwelwyd tystiolaeth gadarn o ymchwil i amrywiaeth ddiddorol o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn y rhan fwyaf o achosion, ac roedd yn braf gweld cysylltau clir â'r lleoliadau a ddewiswyd gan yr ymgeiswyr drwy'r dasg gyntaf. Ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr yn glir ac yn gynhwysfawr i lunio adroddiad manwl ar gyfer rhywun sy'n cynllunio gyrfa yn y sector iechyd a gofal i oedolion. Cyflwynodd bron pob canolfan waith a oedd yn gynrychiadol o'r canllaw 40 awr a argymhellir.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Tasg 1

Dewisodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr leoliad priodol ar gyfer y dasg hon, gyda llawer yn gwneud ymchwil i ddarpariaeth leol ac yn cyfeirio at hynny drwyddi draw. Mae annog ymgeiswyr i grynhoi'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt ar ddechrau Tasg 1 yn caniatáu iddynt ganolbwyntio a chyfeirio at y lleoliad drwy'r dasg, sy'n hanfodol i ymgeiswyr gyrraedd y bandiau marciau uwch, yn enwedig ar gyfer meini prawf asesu (b) (ii), (c), (ch) a (d) (ii).

Yn (b) (ii), nid oedd digon o fanylder yng ngwaith rhai ymgeiswyr wrth esbonio trawsnewidiadau bywyd, profiadau bywyd a newidiadau mewn bywyd, o bosibl oherwydd y lleoliad a ddewiswyd. Gall ymgeiswyr ysgrifennu mewn modd generig i gefnogi eu gwaith yn yr adran hon, yn enwedig wrth gyrraedd y bandiau marciau uwch, os yw eu lleoliad yn eu cyfyngu.

Yn adran (c), dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o asesu ac fe wnaeth llawer gynnwys cynlluniau gofal, ond nid oedd rhai o ymgeiswyr y bandiau uwch wedi ysgrifennu am y pum elfen asesu. Eto, mae'n bosibl bod yr elfen hon o adran (c) yn generig. Yn gyffredinol, dangoswyd gwybodaeth a dealltwriaeth o asesu yn glir.

Cwblhawyd adran (ch) yn dda, gyda llawer o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth o rwystrau i gael mynediad at ofal a chymorth, a'r rhan fwyaf yn cymhwyso'r rhain yn gywir at y lleoliad a ddewiswyd ganddynt.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

Dangosodd ymgeiswyr dystiolaeth o ymchwil manwl i bolisi cymdeithasol yng Nghymru.

Yn adran (b), dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda, ond ni wnaeth rhai ganolbwyntio ar y newidiadau yn rolau ymarferwyr oherwydd y datblygiad yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gyfer ymgeiswyr bandiau uwch, dylid dangos dealltwriaeth hyderus o'r goblygiadau ar rolau ymarferwyr, gan gynnwys rolau sydd newydd gael eu creu.

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu trafod pwysigrwydd diogelu, ac ysgrifennodd rhai yn fanwl am yr amrywiaeth o fathau o niwed a chamdriniaeth y dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gydag oedolion yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oes angen manylion ar y lefel hon yn adran (c) (i). Fodd bynnag, dylid annog ymgeiswyr i ysgrifennu'n fwy dadansoddol yn adran (c)(ii). Yn gyffredinol, roedd diffyg dadansoddi a gwerthuso yn yr adran hon, ac roedd hwn yn faes y collodd ymgeiswyr farciau ynddo.

Roedd ymgeiswyr yn gallu trafod rôl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn weddol fanwl, ond roedd diffyg manylion yng ngwaith rhai ymgeiswyr yn yr adran hon. Noder bod y darn penodol o ddeddfwriaeth yn newid bob blwyddyn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu am DBS yn adran (c) (i). Byddai anodiadau gan y canolfannau i gyfeirio at hyn yn ddefnyddiol yn yr achosion hyn.

Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i nodi newidiadau perthnasol yn y gymdeithas, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu llunio peth barn am effaith y newidiadau hyn ar iechyd a gofal cymdeithasol. Eto, byddai annog ysgrifennu mwy dadansoddol yn helpu'r ymgeiswyr hynny i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylid annog ymgeiswyr i drafod y lleoliad a ddewiswyd ganddynt ar ddechrau Tasg 1 fel eu bod yn canolbwyntio ar y lleoliad drwyddi draw.
- Dylai canolfannau sicrhau bod y gwaith wedi'i anodi a'i lwytho i fyny yn y drefn gywir. Byddai rhifau tudalennau, penynnau a throedynnau yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw waith anghyflawn yn cael ei gyflwyno, yn enwedig wrth sganio a llwytho i fyny.
- Gellid gwneud gwaith gyda'r ymgeiswyr am ysgrifennu dadansoddol a gwerthusol fel y gallant ennill marciau yn y bandiau marciau uwch.
- Roedd y tasgau wedi'u cyflwyno'n dda, ac roeddent yn fanwl ac yn ddiddorol, a gobeithio y bydd hyn yn parhau gyda charfannau yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.